Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Ynyshir a Wattstown
**Pafiliwn Wattstown**
**Parc Wattstown**
**CF39 0RA**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Ynyshir & Wattstown

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Ynyshir a Wattstown |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Jayne Beer |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Carolyn Davey |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2 - 3 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 7 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9.00yb – 3.00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r ddarpariaeth yn gweithio tuag at darparu'r 'cynnig rhyngweithiol' ar gyfer yr iaith Gymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 31/03/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 25/11/2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 12/02/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Saesneg yw'r brif iaith i bron pob un plentyn | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol a chyson i wella safonau llafar y plant

A2 Cysoni'r arferion asesu er mwyn cynllunio'n fwriadus i ddiwallu anghenion y plant yn llwyddiannus

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â'r ddarpariaeth o brofiadau dysgu tu mewn i'r adeilad a threfniadau amser byrbryd, i'w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau'n glir ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol ynglŷn â ble a gyda phwy i chwarae. Er enghraifft, yn ystod chwarae rhydd, mae'r rhan fwyaf yn dewis ble i chwarae, gan symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r llall. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu hoffterau'n hyderus, fel dewis i chwarae â thywod yn hytrach nag ymuno â'r sesiwn canu. Yn ogystal, maent yn symud yn ddeallus o'r ardal allanol i'r ardal fewnol yn gwbl annibynnol trwy ddilyn arferion cadarn y lleoliad.

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd y lleoliad yn eiddgar ac yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn ffurfio ymlyniadau cadarnhaol â'u gweithwyr allweddol a phlant eraill, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar eu lles a'u gwaith dyddiol. Mae'r ychydig iawn o blant sydd yn ansicr wrth gyrraedd, yn bodloni ar gysur gan ymarferwyr cyn iddynt ymgyfarwyddo a'r drefn ddyddiol, sy'n tawelu unrhyw bryderon sydd ganddynt yn effeithiol. O ganlyniad, mae bron pob un plentyn yn ymwybodol y bydd ymarferwyr yn gwrando ar eu dymuniadau ac yn ymateb yn briodol i'w hanghenion yn synhwyrol.

Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod chwarae rhydd ac yn ystod cyfnodau grŵp. Mae llawer yn rhannu adnoddau'n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gydweithio'n effeithiol wrth addurno toes yn yr ardal gartref. Mae llawer yn deall yn ystyrlon y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac maent yn dweud 'diolch' yn gwrtais, pan fo'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, fel esgus coginio yn y gegin fwd a chwarae gyda thywod i greu siapiau diddorol. Mae'r mwyafrif yn dyfalbarhau â'u tasgau'n frwdfrydig ac yn ymateb yn ddeallus i unrhyw anogaeth gan ymarferwyr.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleodd chwarae ysgogol. Mae eu cymhelliant tuag at gwblhau tasgau yn effeithio'n gadarn ar eu dysgu. Mae ganddynt fedrau hunangymorth da iawn ac yn golchi eu dwylo a brwsio'u dannedd gyda chymorth cyfyngedig gan oedolion. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibynnol yn arbennig o dda yn ystod amser byrbryd o ganlyniad i'r cyfleoedd ardderchog sy'n cael eu darparu ar eu cyfer.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) o'u mannau cychwyn, sydd yn is na'r cyfartaledd disgwyliedig. Mae medrau cychwynnol bron pob un yn isel yn y Gymraeg.

Mae rhan fwyaf y plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau yn dda ac yn gweithredu arnynt yn effeithiol. Gwelir hyn pan fyddant yn llanw jygiau â dŵr a'u cyfatebu trwy liwiau i bibellau a blychau gwahanol yn ddeallus. Maent yn gwrando ar gerddoriaeth yn astud ac yn ymuno'n frwdfrydig mewn caneuon cyfarwydd yn y Gymraeg.

Mae rhan fwyaf y plant yn cyfathrebu'n glir wrth ymateb i drafodaethau, trwy ddefnyddio Saesneg ac ychydig o Gymraeg, ac maent yn ystyried anghenion pobl eraill yn bwrpasol. Mae'r lleiafrif yn defnyddio geiriau Cymraeg ac ymadroddion syml yn briodol, er enghraifft wrth iddynt werthu llysiau yn y siop. Fodd bynnag, nid oes llawer yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus.

Mae llawer o blant yn diddori mewn llyfrau ac yn ystyried y cynnwys yn effeithiol. Maent yn trafod digwyddiadau yn synhwyrol ac yn trin llyfrau fel darllenwyr hyderus. Yn ogystal, maent yn ymateb â diddordeb i gynnwys storïau, fel dilyn helyntion tedi ar y lleuad.

Mae llawer yn gwneud marciau'n bwrpasol gyda chyfryngau gwahanol fel sialc a phaent ac yn nodi archebion o'r siop yn ystyrlon ar bapur. O ganlyniad, maent yn mwynhau eu profiadau ysgrifennu cynnar ac mae'r lleiafrif yn esbonio diben ysgrifennu yn synhwyrol.

Mae llawer o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol ac mewn cyd-destunau cywir. Maent yn cyfrif i bump yn hyderus ac yn trafod nodweddion siapiau gwahanol yn ddeallus, gan nodi'r gwahaniaethau rhyngddynt yn fwriadus. Mae llawer yn cymharu siapiau dau a thri dimensiwn a gwrthrychau 'bach' a 'mawr' yn dda wrth adeiladu roced. Maent yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn bwrpasol, fel cymharu bwcedi 'llawn' a 'gwag' wrth greu cestyll tywod. Yn ogystal, maent yn cydbwyso â thafol yn ofalus a didoli cregyn yn effeithiol, wrth greu golygfeydd diddorol.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau TGCh llwyddiannus trwy ddefnyddio llechi a theganau electronig. O ganlyniad, maent yn ymgyfarwyddo'n effeithiol â defnyddio technoleg yn eu chwarae a'u gweithgareddau dyddiol.

Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu medrau corfforol da wrth yrru beiciau a chydsymud i gerddoriaeth yn frwdfrydig. Mae llawer yn datblygu medrau meddwl a chreadigol pwrpasol, sy'n effeithio'n gadarn ar eu dysgu. Er enghraifft, maent yn creu patrymau diddorol trwy wehyddu brwyn lliwgar trwy dyllau colandr.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn gosod disgwyliadau a blaenoriaethau uchel i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau ac maent yn gweithredu holl bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn fwriadus. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol gan bron pob un ohonynt, sy'n adlewyrchiad da o'r gofal diwyd sy'n bodoli yn y lleoliad. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau priodol wrth weini meddyginiaethau.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i gymryd rhan mewn cynlluniau amrywiol sy'n hyrwyddo bywydau iachus yn llwyddiannus, fel brwsio dannedd yn ddyddiol. Yn

ogystal, mae'r lleoliad yn sicrhau bod byrbrydau a diodydd iach ar gael i'r plant, sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o fyw'n iach.  Trwy'r arferion dyddiol, mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleodd gwerthfawr i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff ac i chwarae tu allan, er enghraifft trwy yrru beiciau neu i groesi'r pont gydbwyso yn yr ardal allanol.  Mae'r gweithdrefnau ac arferion hylendid yn dda iawn ac mae'r ymarferwyr yn annog y plant yn gyson i olchi eu dwylo ar yr amseroedd priodol.

Mae'r holl ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn effeithiol ac yn modelu ymddygiadau synhwyrol.  Maent yn garedig ac yn atgoffa'r plant yn rheolaidd i rannu teganau ac i barchu ei gilydd ac oedolion.  Mae'r ymarferwyr yn annog y plant â chefnogaeth effeithiol i ddatrys unrhyw wrthdaro rhyngddynt trwy drafodaethau synhwyrol gyda'i gilydd.  O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn canmol y plant yn aml, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu hunanhyder a'u dealltwriaeth o barchu ei gilydd.

Darperir cyfleoedd cyfoethog i blant ddysgu am bwysigrwydd gofalu am bethau byw, er enghraifft trwy dyfu planhigion yn yr ardd a gofalu am gywion bach.  Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol i blant ddatblygu eu hannibyniaeth trwy bwysleisio y dylent wneud cymaint â phosibl i'w hunain.  Er enghraifft, maent yn annog y plant yn ardderchog i gasglu eu llestri, gweini eu bwyd a'u diod, bwyta'n annibynnol a thacluso yn ystod amser byrbryd.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau buddiol i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol.  Mae'r ymarferwyr yn defnyddio asesiadau'n ddeallus i adnabod plant sydd angen cymorth ac i drefnu darpariaeth addas ar eu cyfer.  Maent yn cydweithio ag asiantaethau allanol yn effeithiol i gefnogi plant yn ôl yr angen, er enghraifft trwy dderbyn cyngor gan Dechrau'n Deg a gweithwyr iechyd proffesiynol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm diddorol sy'n adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus.  Maent yn cynllunio profiadau dysgu ardderchog tu mewn i'r adeilad, sy'n targedu diddordebau'r plant yn gadarnhaol iawn.  O ganlyniad, mae cyfleoedd buddiol ar gael i greu dysgwyr annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n bwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn llwyddiannus.  Mae'r gweithgareddau'n cynnwys heriau i ddatrys problemau gyda chyfarpar mathemategol, i chwilio am wyau gyda gefeiliau ac i ddefnyddio offer TGCh fel recordydd llais.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar wella Cymraeg y plant yn briodol trwy fodelu geiriau, rhifau, lliwiau ac ailadrodd ymadroddion syml.  Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg yn ddigon cyson gyda'r plant a'i gilydd i sicrhau'r effaith orau.

Mae pwyslais clir gan ymarferwyr ar ddathlu amrywiaeth a datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant, fel astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a phatrymau rangoli Diwali.  Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru'n llwyddiannus ac yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi a choginio cawl.

Gwneir defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i greu ymwybyddiaeth gadarn ymhlith y plant o'u pentref a'i bobl fel yr heddlu a'r swyddfa bost.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant yn dda. Maent yn cymell y plant i gydweithio a dysgu'n ymarferol, er enghraifft trwy ddarparu cyfleoedd cyson i yrru'n fywiog ar feiciau a chynnal sioe bypedau.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn herio'r plant yn gyson. Maent yn holi'n fedrus, sy'n effeithio'n gadarn ar fedrau'r plant. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt drafod gweithredoedd Elen Benfelen yn nhŷ'r eirth. Mae'r ymarferwyr yn dangos cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd oedolyn a thasgau annibynnol y plant. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddysgu trwy brofiadau ymarferol. Enghreifftiau da yw cydbwyso ar offer yn yr ardal allanol ac arllwys dŵr i gylchdroi'r melinau dŵr.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu yn effeithiol. Mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â deilliannau'r plant gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen. Mae'r ymarferwyr yn asesu'n rheolaidd ac yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant sut i wella'u gwaith. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r canfyddiadau'n ddigon trylwyr i gynllunio'n effeithiol i herio'r plant hyd eithaf eu gallu.

Mae'r lleoliad yn cynnal cyfarfodydd defnyddiol gyda rhieni i drafod cynnydd eu plant. Yn ogystal, maent yn darparu llyfrynnau defnyddiol iddynt ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, sy'n adlewyrchu cynnydd eu plant yn dda.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu yn dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu'r plant. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd rhagorol o'r amgylchedd mewnol. Maent yn darparu ardaloedd chwarae a dysgu ysgogol sy'n cynnwys ardaloedd tawel a chwarae rôl yn ogystal â gweithgareddau pwrpasol i blant ymchwilio ac i feithrin medrau creadigol da. Mae'r ymarferwyr yn darparu a pharatoi amrywiaeth ardderchog o adnoddau ym mhob ardal. Mae'r adnoddau yn cael eu cadw ar lefel ymarferol i bob un o'r plant eu cyrraedd. Mae hyn yn galluogi'r plant i'w hestyn a'u rhoi i gadw heb ymyrraeth oedolion. Mae hyn yn effeithio'n bwrpasol ar hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb ymysg ei gilydd. Mae'r amgylchedd yn groesawgar a diddorol ac mae arddangosfeydd niferus yn dathlu gwaith y plant yn llwyddiannus gan gynnwys eu gwaith crefft a'u lluniau, fel rocedi allan o foteli plastig.

Mae'r amgylchedd yn gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Mae'r plant yn cael cyfle i fynd i'r tai bach a defnyddio'r basnau golchi dwylo yn annibynnol. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid yn briodol.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn ddiogel. Ni all ymwelwyr fynd at unrhyw ran o'r lleoliad oni bai bod ymarferwr yn rhoi mynediad iddynt. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch a'r gofynion angenrheidiol sydd arnynt i gynnal driliau tân rheolaidd ac asesiadau risg dyddiol o'r holl ardaloedd mewnol ac allanol. Mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus wrth oruchwylio plant yn ystod yr holl weithgareddau i sicrhau eu diogelwch. Er enghraifft, maent yn defnyddio gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod plant yn gadael y lleoliad gyda rhiant neu ofalwr cydnabyddedig.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae yn ysgogol ac yn addas ar gyfer oedran y plant. Mae trefn yr adeilad yn caniatáu i’r plant symud o gwmpas yn rhydd a gwneud dewisiadau effeithiol o ran eu chwarae. Caiff lles plant ei hyrwyddo trwy ddewis helaeth o deganau ag offer yn yr ystafell chwarae ac yn yr ardaloedd awyr agored. Mae’r ardal awyr agored yn ddiddorol ac mae’n cynnwys ardaloedd naturiol i blant ymchwilio a dysgu’n annibynnol. Mae’r adnoddau yn cael eu cadw’n synhwyrol mewn blychau clir ar lefelau isel ac, o’r herwydd, yn galluogi’r plant i gyrraedd a defnyddio’r adnoddau’n annibynnol. Mae ystod eang o deganau ac offer i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar gael, gan gynnwys llyfrau, arddangosfeydd a doliau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae’r rheolwraig wedi sefydlu arferion trwyadl i weithdrefnau’r lleoliad ac mae hi’n llywio cyfeiriad pwrpasol yn ddyddiol. Mae ei gweledigaeth synhwyrol yn sicrhau bod y cynllunio, yr addysgu a’r gofal yn effeithio ar ddeilliannau’r plant yn dda, trwy gynnig profiadau difyr ac ysgogol.

Mae’r profiadau, y cynlluniau a pholisïau’r lleoliad yn canolbwyntio’n drylwyr ar fodloni anghenion y plant. Mae’r rheolwraig yn gweithio’n gydwybodol gyda’r ymarferwyr ymroddgar ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain a’r plant. Maent yn cymell y plant i wella’u gwaith yn gyson, mewn ffyrdd cefnogol ac addysgu bwriadus.

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau ei gilydd, rhieni a gofalwyr, y plant ac asiantaethau allanol. Maent yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda phawb sy’n gysylltiedig â’r lleoliad i wella’r profiadau dysgu ymhellach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella’r agweddau sydd angen eu newid. Er enghraifft, maent yn gwrando ar rieni ac yn gweithredu ar y canfyddiadau, fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfleu gwybodaeth.

Mae aelodau’r pwyllgor rheoli yn gefnogol ac maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau’n llawn trwy werthusiadau a thrafodaethau cyson. Maent yn gwrando’n synhwyrol ar awgrymiadau swyddogion yr awdurdod lleol, Mudiad Meithrin a Dechrau’n Deg. Mae gan y pwyllgor drefniadau effeithiol i fonitro safonau’r plant a’r ddarpariaeth. Maent yn defnyddio gweithdrefnau meintiol a phwrpasol i adnabod cryfderau a’r materion i’w gwella. Mae trylwyredd y gweithdrefnau hyn yn sicrhau targedau effeithiol yn y cynllun datblygu. O ganlyniad, mae’r gweithdrefnau gwella ansawdd yn arwain at newidiadau pwrpasol i’r dyfodol.

Mae’r rheolwraig yn dyrannu adnoddau yn fwriadus. Gwneir hyn trwy sicrhau digon o ymarferwyr cymwys, sydd wedi cael hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion y plant yn effeithiol. Yn ogystal, mae’r defnydd o’r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau’r cynllun datblygu yn effeithiol. O ganlyniad, mae’r rheolwraig a’r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau’r plant. Enghraifft dda o hyn yw’r cydweithio deallus gyda’r awdurdod lleol i ddefnyddio grantiau i gynnal profiadau ysgogol, fel cywion yn deor o wyau a helyntion yn yr ysgol goedwig.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol. Maent yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Er enghraifft, mae cysylltiadau cadarnhaol iawn yn bodoli gyda'r ysgol leol i gefnogi'r arferion dyddiol, yr hyfforddiant a'r ddogfennaeth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2019